# ARCHARWYR



# AWTISTIAETH!

Mae awtistiaeth yn effeithio ar oddeutu un o bob 100 o blant. Bydd o fudd i'r plant rheiny sy'n mynd i ysgolion prif ffrwd os yw'r staff a'u cyfoedion yn deall eu hanghenion ac yn gwybod sut i ymateb iddyn nhw.

Nod y llyfr hwn yw cynyddu ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymhlith disgyblion ysgolion cynradd prif ffrwd. Mae fersiwn llyfr comics ar gael hefyd a allai apelio'n fwy at ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2.

Ar ôl darllen y llyfrau hyn, gall y plant ymrwymo i fod yn Archarwyr Awtistiaeth a derbyn tystysgrif drwy'r wefan hon:

www.ASDinfoWales.co.uk/superhero

Mae'r adnodd hwn yn rhan o gynllun 'Dysgu gydag Awtistiaeth', a'i nod yw cynyddu ymwybyddiaeth o awtistiaeth drwy'r ysgol gyfan.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ac adnoddau ychwanegol ar gael ar wefan:

www.ASDinfoWales.co.uk /primary-school

Awdur y llyfr yw Johanna Manikiza, Arweinydd Cenedlaethol Datblygu ASA, a'r darlunydd yw Amy Moffitt.


Learning with Autism
Dysgu gydag Awtistiaeth
www.ASDinfoWales.co.uk
GIG CYMRU NHS WALES Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales
WLGA • CLILC
Llywodraeth Cymru Welsh Government



Dyma Archarwyr Awtistiaeth!

Maen nhw'n ddewr ac yn gryf, ac yn gwneud yn siŵr bod ffrindiau gan blant ag awtistiaeth bob amser. Maen nhw'n gwybod bod plant ag awtistiaeth yn arbennig, yn dalentog, ac weithiau, yn gwybod am stwff cŵl iawn!

Wyt ti wedi dymuno bod yn archarwr erioed?



Mae Megan a Dylan eisiau bod yn archarwyr ...




Felly rydyn ni'n mynd i ddangos iddyn nhw sut i wneud hyn, a galli di ddysgu hefyd!


Bydd newid dy ymddygiad yn help i blant ag awtistiaeth, a rhaid i ti beidio byth â bod yn gas wrthyn nhw.




Gall Megan a Dylan ffonio'r archarwyr pan fod angen help arnyn nhw.





Yn nes ymlaen, mae Dylan yn ffonio'r archarwyr a bant â nhw i'w helpu.



Gofynnodd Dylan i Aled ‘hongian rownd’ gydag e, ond dyw Aled ddim yn deall. Mae e’n meddwl bod Dylan eisiau ‘hongian rownd’ go iawn. Ceisio gofyn i Aled ddod i chwarae gydag e mae Dylan.


**Dylet ti bob amser siarad yn blaen â rhywun ag awtistiaeth. Pan fod Dylan yn gofyn i Aled fynd i sglefrfyrddio gydag e, mae e'n deall yn iawn.**





Mae angen help ar Megan nawr, felly mae hi'n ffonio'r archarwyr.






Dydy ffrind Megan ddim eisiau chwarae doliau gyda hi. Mae Megan hyd yn oed wedi cynnig rhannu ei doliau â'i ffrind.


Mae plant ag awtistiaeth yn cael trafferth chwarae gemau dychmygu. Dylet ti ddewis gemau eraill er mwyn iddyn nhw fedru chwarae hefyd.


Fel gemau bwrdd, rasio, snap neu pôtsh.






Mae ffôn yr archarwyr yn canu eto. Mae angen rhagor o help ar Dylan!





**Hoffai Dylan i Huw fynd i barti pen-blwydd ei frawd, ond dydy Huw ddim eisiau mynd i mewn.**

# Y Pum Synnwyr




**Weithiau, mae synhwyrau plant ag awtistiaeth yn sensitif iawn, felly mae llefydd swnllyd fel parti, ffreutur neu fabolgampau yn boenus iddyn nhw.**




**Dylet ti ddewis gwneud gweithgareddau tawelach mewn lle heb oleuadau llachar nac arogleuon cryf ynddo.**

**Mae Dylan a Huw yn mynd i'r parti pan fod y rhan fwyaf o'r plant eraill wedi gadael, a'r miwsig yn dawel. Mae Huw yn teimlo'n hapusach ac yn fwy cartrefol.**




**Mae galwad arall yn dod at yr archarwyr gan Megan.**





**Mae Anna o dan y bwrdd a dydy hi ddim eisiau dod allan am fod ofn arni. Weithiau, mae pethau sy ddim yn codi ofn arnat ti, fel y gwasanaeth, athrawes newydd neu blant swnllyd, yn codi ofn ar blant ag awtistiaeth.**

**Pan fod plant ag awtistiaeth yn rhedeg i ffwrdd, yn cuddio neu'n cicio, fel arfer mae hyn am eu bod yn ofnus neu'n poeni, nid yn camymddwyn.**





**Mae'r archarwyr yn falch iawn o Megan a Dylan am fod yn gystal ffrindiau i blant ag awtistiaeth, ac yn gwirio beth maen nhw wedi ei ddysgu.**


**“Paid byth â bod yn gas wrth blant ag awtistiaeth.”**





Dylen ni siarad yn blaen â nhw bob amser!



**“Dylen ni chwarae gemau sy ddim angen dychymyg.”**


Dydy rhai plant ag awtistiaeth ddim yn hoffi sŵn uchel, golau llachar, arogl cryf na chyffwrdd.

“Mae plant ag awtistiaeth i’w gweld yn flin weithiau, ond mewn gwirionedd, maen nhw’n teimlo’n bryderus neu’n ofnus.”



# DA IAWN, TI!



RWYT TI'N UN O'R **ARCHARWYR AWTISTIAETH** NAWR!